Cymru Greadigol
Creative Wales

# Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol 2022-2025...

CREADIGOL

cymrugreadigol.cymru

# Mae pwysigrwydd y diwydiannau creadigol i Gymru yn glir.

Yn ôl data 2021 ar y sectorau diwydiannau creadigol sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau Cymru Greadigol, mae 3,423 o fusnesau yn y sectorau diwydiannau creadigol yng Nghymru, sef cynnydd o 6.4% o gymharu â 2018. Roedd 35,400 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sectorau hyn yn 2021 ac roedd y diwydiant yn cynhyrchu trosiant blynyddol o £1.7 biliwn, sef cynnydd o 14% o gymharu â 2017. Nid creu swyddi a chyfoeth yn unig mae'r diwydiannau creadigol yn ei wneud. Mae cysylltiad annatod rhyngddynt hefyd â'n diwylliant a'n llesiant, ac maent yn cyfrannu at frand cenedlaethol cryf sy'n helpu i hyrwyddo Cymru, ei diwylliant a'i thalent i'r byd. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai'r diwydiannau creadigol yw un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf[1]. Maent mewn sefyllfa dda i helpu gyda'r adferiad economaidd yn sgil COVID, yn cefnogi rolau ymhlith y rhai sydd fwyaf gwrthwynebol i awtomeiddio ac mae mwyfwy o alw amdanynt ym mhob rhan o'r economi[2].

Er mwyn manteisio ar y potensial hwn, adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf a gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer twf cynhwysol, mae Cymru Greadigol yn ymrwymedig i gefnogi a meithrin y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol a chymryd camau er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu medrus sydd ei angen yng Nghymru er mwyn i'r sector ffynnu. Mae *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad penodol i sefydlu Corff Sgiliau Creadigol sy'n cael ei gyflawni drwy Cymru Greadigol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r flaenoriaeth a nodwyd yn ein *Dogfen Blaenoriaethau* a gyhoeddwyd pan lansiwyd Cymru Greadigol, sef sicrhau ein bod yn datblygu'r sgiliau cywir ar draws y sector i gefnogi twf parhaus. Sefydlwyd Panel Cynghori Sgiliau Creadigol newydd ym mis Mai 2022 i gyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau hyn. Mae'r Panel Cynghori yn cynnwys 12 o weithwyr proffesiynol o'r meysydd sgrin, cerddoriaeth, gemau, animeiddio a technoleg ymgolli a hefyd o undeb, y maes darlledu, hyfforddiant, addysg bellach ac addysg uwch yn ogystal â hyrwyddwr amrywiaeth a chynhwysiant a chynrychiolydd ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.

Lluniwyd *Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol (2022-2025)* gan y Panel Cynghori, a fydd yn parhau i roi cyngor ar y broses o gyflawni'r ddogfen fyw hon ac yn ei hadolygu bob chwe mis er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Nod *Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol (2022-2025)* yw diwallu anghenion sgiliau'r tri sector â blaenoriaeth, sgrin, cerddoriaeth, gemau, animeiddio a technoleg ymgolli, yn y byrdymor, yn ogystal ag ystyried yr anghenion hirdymor a fydd yn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn lle creadigol a ffyniannus i wneud busnes. Mae'r Cynllun wedi cael ei lansio ochr yn ochr â *Chronfa Sgiliau Creadigol* wflynyddol newydd gwerth tua £1 filiwn a fydd yn cefnogi prosiectau sy'n cyflawni yn erbyn y 10 maes â blaenoriaeth a nodir yn y ddogfen hon. Wrth fynd ati i gyflawni'r Cynllun, bydd cyfleoedd i gefnogi sgiliau trosglwyddadwy a, dros amser, caiff cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a thalent ar draws y diwydiannau creadigol ehangach eu hystyried hefyd. Nod y Cynllun yw cyflawni yn erbyn pob un o'r saith nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i wahanol raddau o; *Cymru ffyniannus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymru fwy cyfartal, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang a Chymru o gymunedau cydlynus.* Mae'n cydnabod pwysigrwydd gwaith ac arferion gwaith teg i ddiwydiannau creadigol cynhwysol a ffyniannus sy'n cynnig cyfleoedd agored a chynhwysol i ddatblygu sgiliau a gwneud cynnydd ac sy'n gyson â blaenoriaethau gwaith teg Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cydnabod na allwn wneud y gwaith a wnawn ar ein pen ein hunain. Mae cydweithio â rhanddeiliaid diwydiant allweddol yn hanfodol a bydd Cymru Greadigol yn ceisio parhau â'i hethos o weithio mewn partneriaeth wirioneddol er mwyn alinio gweithgareddau a nodi cyfleoedd i weithredu ar y cyd. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun hwn drwy ein grwpiau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer sgiliau a sectorau â blaenoriaeth, a chafodd y Cynllun terfynol ei gymeradwyo gan Fwrdd Anweithredol Cymru Greadigol. Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus, bydd angen gweithio mewn partneriaeth agos â rhannau eraill o Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol. Bydd integreiddio a chydweithio ar draws portffolios, er enghraifft gyda chydweithwyr ym meysydd Sgiliau ac Addysg, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac yn allanol gyda chyrff diwydiant a phartneriaid allweddol, er enghraifft i godi safonau, hyrwyddo gwaith teg, a mynd i'r afael ag amrywiaeth a chynhwysiant, yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac, fel partner cyflawni allweddol yn adran Diwylliant,

1 Adroddiad ar y Diwydiannau Creadigol Rhif 1 i'w Gyfieithu F1 (clwstwr.org.uk)
2 Creative UK Group – UKCI Report 2021.pdf (hubspotusercontent20.net)

Treftadaeth a Chwaraeon Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, bydd Cymru Greadigol yn parhau i weithio i sicrhau bod nodau a gweithredoedd yn cael eu cyflawni.

Mae *Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol (2022-2025)* wedi'i rannu'n ddwy adran; mae'r gyntaf yn amlinellu ymrwymiadau Cymru Greadigol i sicrhau newid drwy ei gylch gorchwyl ei hun a thrwy integreiddio a chydweithio ar draws portffolios Llywodraeth Cymru a gydag eraill; mae'r ail yn nodi'r 10 blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer buddsoddi mewn sgiliau yn y sectorau sgrin, cerddoriaeth, gemau, animeiddio a technoleg ymgolli. Nod y *Gronfa Sgiliau Creadigol* yw targedu buddsoddiad at y prif feysydd y canolbwyntir arnynt yn y Cynllun hwn, a bydd angen i brosiectau sy'n gwneud cais am gymorth ddangos sut maent yn cyflawni yn erbyn o leiaf un o'r 10 blaenoriaeth a nodir yn Adran Dau.

Mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol yn ddogfen fyw a fydd yn parhau i gael ei ddatblygu mewn ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau a fydd ar gael/a fydd yn wynebu'r diwydiannau creadigol yn ystod y cyfnod cyflawni o dair blynedd. Caiff tystiolaeth o ddata a gesglir ar brosiectau a gyflawnir gan Cymru Greadigol a'r rhai a gefnogir gan y Gronfa Sgiliau Creadigol ei defnyddio, ochr yn ochr â gwybodaeth a gesglir drwy arolygon sector a data ystadegol, i fesur llwyddiant ymyriadau, asesu effaith a llywio unrhyw ddiwygiadau i flaenoriaethau'r Cynllun, yn ôl yr angen.

Bydd y Panel Cynghori Sgiliau Creadigol, a arweinir gan y diwydiant, yn parhau i oruchwylio a llywio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun ac yn arwain adolygiad cychwynnol o gynnydd ym mis Mawrth 2023.

# SGILIAU

# Adran Un

## Gan weithio gyda phartneriaid allweddol, bydd Cymru Greadigol yn ymrwymo i'r canlynol:

— Cefnogi a sicrhau bod modd cyflawni ymrwymiadau'r *Rhaglen Lywodraethu*, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyflawni'r Warant i Bobl Ifanc, a fydd yn cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed ac yn creu 125,000 o brentisiaethau pob oed

— Gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i fapio'r fframwaith prentisiaethau cyfredol ar gyfer y sector a helpu gyda chyfleoedd i gyflwyno Cynlluniau Rhannu Prentisiaethau ym mhob sector creadigol lle y bo'n bosibl ac ehangu cynlluniau presennol. Gweithio gyda'r sectorau i ystyried dichonoldeb prentisiaethau gradd lle y bo'n briodol. Bydd gofyniad parhaus hefyd i'r rhai sy'n derbyn cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol ymrwymo i gyflogi o leiaf un prentis fel rhan o'u cynllun hyfforddeion

— Gweithio gyda phartneriaid er mwyn helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i bartneriaeth gymdeithasol deirochrog, gwaith teg a llesiant. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r Polisi Diwydiannau Creadigol ac Adolygiad y Ganolfan Dystiolaeth o Waith Da i lywio ein dull gweithredu a chefnogi datblygiad parhaus y Cynllun

— Parhau i flaenoriaethu prosiectau a all ddangos bod sgiliau yn cael eu cefnogi drwy bartneriaeth. Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys darlledwyr cyhoeddus, lle y bo'n bosibl i osgoi dyblygu a gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Gweithio gyda rhanddeiliaid ledled y DU, gan gynnwys Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) a ScreenSkills, er mwyn sicrhau mwy o ymgysylltu yng Nghymru a chysondeb lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl i Gymru

— Cefnogi gweithgarwch a fydd yn ceisio cyflawni yn erbyn pob un o'r saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; *Cymru lewyrchus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru lewyrchus a Chymru o gymunedau cydlynus*

— Cefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a gweithio gydag arweinwyr y Cynllun i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a recriwtio cynhwysol yn y sectorau creadigol a rhoi camau ar waith i gynyddu amrywiaeth ethnig ar bob lefel yn y tri sector â blaenoriaeth drwy wneud y canlynol;

- Casglu ac adolygu data llinell sylfaen o amrywiaeth ethnig yn y tri sector â blaenoriaeth yng Nghymru
- Sicrhau bod prosiectau a ariennir gan Cymru Greadigol yn cydymffurfio â Safonau Amrywiaeth Sefydliad Ffilm Prydain (sy'n benodol i Gymru)
- Galluogi cymorth ar gyfer mentrau hyfforddi a fydd yn gwella amrywiaeth a chynhwysoldeb yn y sectorau creadigol
- Sicrhau bod pob cwmni a gweithlu creadigol yng Nghymru yn gallu cael mynediad at amrywiaeth eang o hyfforddiant a datblygiad o ran cydraddoldeb/amrywiaeth/cynhwysiant gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd
- Gweithio gydag arbenigwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, cynrychiolwyr amrywiaeth a mentoriaid cymunedol i roi cyngor, gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr yn y sectorau creadigol yng Nghymru er mwyn helpu i wella cyfraddau recriwtio, cadw a chynnydd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

— Gweithio gyda Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru i roi cyngor, gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr yn y sectorau creadigol yng Nghymru er mwyn helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio

— Helpu i gyflawni uchelgeisiau Cymraeg 2050 i hyrwyddo'r iaith a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru drwy sicrhau bod darpariaeth hyfforddi yn cael ei hyrwyddo a'i chyflwyno yn Gymraeg lle y bo'n bosibl a bod y rhai sydd â diddordeb mewn dysgu'r iaith neu wella eu sgiliau Cymraeg yn cael y cyfle i wneud hynny

— Gweithio gyda chydweithwyr yn adran Addysg Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gyrfaoedd creadigol yn y sectorau â blaenoriaeth yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol o fewn thema drawsbynciol Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith y Cwricwlwm i Gymru (cwricwlwm newydd) a sicrhau bod y cwricwlwm newydd a chymwysterau TGAU newydd yn cefnogi anghenion pob un o'r sectorau â blaenoriaeth

# Adran Un

## Gan weithio gyda phartneriaid allweddol, bydd Cymru Greadigol yn ymrwymo i'r canlynol:

—Gweithio gyda Gyrfa Cymru i hyrwyddo ei Phartneriaeth Addysg Busnes. Gwella ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y sectorau creadigol drwy weithio gyda Cymru'n Gweithio a sefydliadau eraill. Cyfeirio unigolion at adnoddau sydd eisoes yn bodoli gan gynnwys Proffiliau Swyddi ScreenSkills a'r Pecyn Cymorth Creadigol Bectu

—Mapio data ac arolygon cyfredol a gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y data ar sgiliau a gesglir yn y sectorau creadigol yng Nghymru ac yn y DU yn addas at y diben ac osgoi dyblygu diangen

—Cynnal adolygiad blynyddol o fylchau sgiliau a phrinder sgiliau ym mhob sector. Casglu data/gwybodaeth ychwanegol am fylchau sgiliau a phrinder sgiliau lle y bo'n bosibl, er enghraifft yn ystod cyfweliadau ymadael

—Sicrhau bod gan gwmnïau a gefnogir gan Cymru Greadigol brosesau recriwtio teg, tryloyw a 'chadarnhaol' a'u bod yn gweithio mewn ffordd deg, yn cydymffurfio a thelerau ac amodau safonol diwydiant undebau llafur cydnabyddedig, ac yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'r undebau llafur perthnasol. Gofynnir i bawb sy'n gwneud cais llwyddiannus i'r Gronfa Sgiliau Creadigol ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

—Sicrhau bod pob prosiect sy'n cael arian grant gan Cymru Greadigol ym mhob sector yn dangos bwriad i gyfrannu tuag at anghenion sgiliau cyfredol eu sector ac anghenion sgiliau eu sector yn y dyfodol. Bydd ymrwymiad i ddarparu lleoliadau â thâl ar gyfer hyfforddeion yn rhan hanfodol o gynigion ariannu a bydd angen i brosiectau a gefnogir ddangos bod ganddynt broses recriwtio agored ar gyfer hyfforddeion a fydd yn annog mwy o amrywiaeth a chynhwysiant. Caiff pob lleoliad ar gyfer hyfforddeion ei fonitro a'i gofnodi gan dîm Sgiliau a Thalent Cymru Greadigol. Cynhelir arolwg blynyddol o hyfforddeion er mwyn olrhain cynnydd

—Datblygu adran sgiliau a thalent fwy cynhwysfawr ar wefan Cymru Greadigol er mwyn cyfeirio unigolion yn glir at y canlynol;

- cyfleoedd hyfforddi ar gyfer unigolion sydd eisiau gweithio yn y sectorau creadigol
- cyfleoedd hyfforddi ar gyfer unigolion sydd eisoes yn y sector creadigol sydd am uwchsgilio neu ailsgilio
- cymorth i gwmnïau sydd am hyfforddi/uwchsgilio staff (e.e Rhaglen Sgiliau Hyblyg)
- rhaglenni a phecynnau cymorth lles sy'n bodoli eisoes.

—Ystyried datblygu a hyrwyddo Cronfa Ddata Sgrin Cymru ymhellach ac ehangu'r llwyfan presennol er mwyn cynnwys gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth yn ogystal â gweithwyr llawrydd ym maes gemau/digidol

—Gweithio gyda Cymru'n Gweithio a Busnes Cymru a chyfeirio cwmnïau creadigol at gymorth busnes presennol drwy sicrhau ei fod yn fwy hygyrch. Mapio hyfforddiant busnes presennol er mwyn osgoi dyblygu wrth gefnogi hyfforddiant ychwanegol wedi'i deilwra ar gyfer cwmnïau

—Gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, i gefnogi mentrau hyfforddi sgiliau trosglwyddadwy ym mhob un o'r sectorau creadigol

—Gweithio gyda gweithgareddau hyfforddi a arweinir gan undebau e.e. rhaglen tair blynedd Full Steam Ahead CULT Cymru.

# Adran 2

## Blaenoriaethau o ran Sgiliau Creadigol

### Blaenoriaeth 1
### Hyfforddiant Busnes ac Arweinyddiaeth

**Nod: cefnogi arweinwyr a rheolwyr y dyfodol yn y sectorau creadigol i'w galluogi i ffynnu, tyfu a chyrraedd eu llawn botensial.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

— Sicrhau bod gan arweinwyr, rheolwyr a Phenaethiaid Adrannau yn y diwydiant y sgiliau sydd eu hangen arnynt i redeg busnes creadigol llwyddiannus a rheoli a chefnogi eu gweithlu'n effeithiol drwy ddarparu hyfforddiant rheoli busnes a hyfforddiant arweinyddiaeth sydd wedi'u teilwra ar gyfer pob sector â blaenoriaeth

— Cefnogi hyfforddiant masnacheiddio er mwyn helpu cwmnïau i dyfu, sicrhau arian, cynllunio olyniaeth

— Arddangos busnesau ac arweinwyr ysbrydoledig creadigol Cymru a dod ag 'arbenigedd' creadigol i Gymru er mwyn ysbrydoli a rhannu gwybodaeth.

### Blaenoriaeth 2
### Cefnogi Talent

**Nod: dod o hyd i dalent greadigol yng Nghymru, ei chefnogi a'i meithrin.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

— Cefnogi talent newydd ac sy'n dod i'r amlwg o bob cymuned yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, actorion, cerddorion, datblygwyr gemau a'r rhai sydd â sgiliau artistig, technegol, crefft a chynhyrchu

— Cefnogi mentrau hyfforddi sgiliau trosglwyddadwy er mwyn galluogi talent i weithio ar draws sectorau

— Cefnogi talent Gymreig a thalent o gefndiroedd amrywiol i gael mynediad i'r diwydiant a gwneud cynnydd yn y sectorau creadigol

— Cefnogi hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o dalent ar draws y sectorau â blaenoriaeth gan gynnwys lleoliadau cysgodi â thâl, gyda ffocws ar sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

— Cefnogi mentrau hyfforddiant ar gyfer creu a diogelu eiddo deallusol

— Cefnogi'r genhedlaeth nesaf o grewyr cynnwys – cynnydd o TikTok i fod yn yrfa.

# Adran 2

## Blaenoriaethau o ran Sgiliau Creadigol

### Blaenoriaeth 3

### Sicrhau bod Recriwtio yn Fwy Amrywiol a Chynhwysol

**Nod: datblygu gweithlu creadigol sy'n adlewyrchu holl gymunedau Cymru.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

- Cefnogi/galluogi cwmnïau a gweithluoedd i fabwysiadu strategaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n sicrhau gwelliannau mesuradwy dros gyfnod penodol o amser
- Cefnogi mesurau i ddileu rhwystrau i gynnydd a chyfleoedd lefel mynediad ac uwchsgilio
- Cefnogi mesurau i weithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn gwella ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y sectorau creadigol gan gynnwys nodi modelau rôl i weithio gyda chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Gweithgareddau allgymorth cymunedol i godi ymwybyddiaeth o'r sectorau â blaenoriaeth fel dewis gyrfa.

### Blaenoriaeth 4

### Cyfleoedd a Lleoliadau Lefel Mynediad

**Nod: cynnig cyfleoedd helaeth i'r rhai sydd am gael mynediad i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

- Nodi a mynd i'r afael â bylchau sgiliau byrdymor a hirdymor drwy archwiliad diwydiant Cymru gyfan ar y swyddi a'r sgiliau sydd eu hangen yn y tri sector â blaenoriaeth
- Darparu cynlluniau mynediad parod i weithio, er enghraifft cyrsiau dwys (bootcamps) sy'n hygyrch ledled Cymru
- Darparu lwfansau er mwyn helpu microfusnesau i gynnig lleoliadau cysgodi profiad gwaith/profiadau addysgol cychwynnol â thâl yn y diwydiant
- Cefnogi mentrau sy'n creu cyfleoedd lefel mynediad i unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

# Adran 2

## Blaenoriaethau o ran Sgiliau Creadigol

### Blaenoriaeth 5
### Cyfleoedd a Lleoliadau Uwchsgilio

**Nod: helpu'r gweithlu presennol i ddatblygu yn eu gyrfa.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

— Helpu unigolion i ddatblygu yn eu gyrfa ym mhob sector â blaenoriaeth; sgrin, cerddoriaeth, gemau, animeiddio a technoleg ymgolli. Nodi prinder a bylchau penodol o ran sgiliau ar gyfer rhoi cymorth

— Cefnogi mentrau sy'n creu cyfleoedd uwchsgilio i unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

— Cefnogi hyfforddiant ôl-raddedig wedi'i deilwra sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant

— Cefnogi hyfforddiant DPP ym mhob sector creadigol

— Cefnogi'r broses o godi rolau i lefel fwy proffesiynol, er enghraifft achrediad ar gyfer rheolwyr cerddoriaeth

— Darparu arian bwrsariaeth er mwyn i weithwyr proffesiynol gael mynediad at hyfforddiant o safon uchel.

### Blaenoriaeth 6
### Addysg a'r Cwricwlwm Newydd

**Nod: sicrhau bod y sectorau â blaenoriaeth yn cael eu hintegreiddio yn yr ystafell ddosbarth yn gynnar, gan wneud y sector yn ddewis gyrfa realistig a dichonol.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

— Ceisio ariannu mentrau newydd sy'n ymwneud â'r thema drawsbynciol Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn y cwricwlwm newydd ym mhob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru

— Cefnogi'r gwaith o integreiddio gemau, animeiddio a sectorau digidol ehangach i mewn i'r cwricwlwm newydd drwy weithdai hyfforddi i athrawon.

# Adran 2

## Blaenoriaethau o ran Sgiliau Creadigol

### Blaenoriaeth 7
### Ymwybyddiaeth o Yrfaoedd

**Nod: egluro gyrfaoedd yn y sectorau â blaenoriaeth.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

—Cefnogi mentrau sy'n gwneud llwybrau gyrfa yn gliriach, rolau yn fwy gweledol ym mhob sector â blaenoriaeth ac sy'n dangos sut i gael mynediad i'r diwydiant yn hawdd

—Creu cyfleoedd datblygu ledled Cymru i ddysgwyr ysgol gymryd rhan mewn gwaith creadigol yn ystod y gwyliau/cyfnodau yn yr haf a chynyddu cyfleoedd i wneud profiad gwaith

—Nodi prosiectau sy'n defnyddio llysgenhadon yn y sectorau i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf

—Cefnogi mentrau sy'n codi dyheadau gyrfa pobl ifanc o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

### Blaenoriaeth 8
### Arloesi

**Nod: sganio'r gorwel er mwyn sicrhau bod gan weithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru y sgiliau cywir ar gyfer y dyfodol.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

—Hyfforddiant newydd ar lwyfannau, adnoddau a'r defnydd o beiriannau gemau, fformatau sy'n dod i'r amlwg a thechnolegau

—Arian i unigolion gael mynediad i hyfforddiant/mynychu digwyddiadau e.e. diweddariadau/lansio meddalwedd

—Sicrhau dyfodol y gweithlu yng Nghymru o ran sgiliau mewn technolegau newydd mewn cydweithrediad â phrosiectau presennol gan gynnwys media.cymru.

# Adran 2

## Blaenoriaethau o ran Sgiliau Creadigol

### Blaenoriaeth 9
### Pontio'r Bwlch Rhwng AB/AU a Diwydiant

**Nod: mynd i'r afael â'r datgysylltiad rhwng pobl ifanc sy'n gadael addysg ac anghenion cyflogaeth diwydiant.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

— Darparu arian/cymhellion i gwmnïau gynnig lleoliadau cychwynnol ar gyfer y rhai sy'n gadael AB/AU

— Sicrhau bod AB/AU yn darparu'r hyn sydd ei angen ar y sector

— Uwchsgilio'r hyfforddwyr AB/AU e.e. gweithdai ar gyfer uwchsgilio hyfforddwyr

— Datblygu cronfa ddata hygyrch o gyrsiau creadigol ym mhob sector â blaenoriaeth a gynigir gan ddarparwyr AB/AU yng Nghymru

— Cyrsiau hyfforddi dwys/hyfforddiant pontio croeso i'r byd gwaith ar gyfer y rhai sy'n gadael AB/AU sydd hefyd yn darparu gwybodaeth ynglun â sut i ddod o hyd i leoliadau

— Sicrhau bod hyfforddiant uwchsgilio a gynigir gan ddarparwyr AB/AU yn diwallu anghenion y diwydiant.

### Blaenoriaeth 10
### Lles y Gweithlu a Chymorth i Weithwyr Llawrydd

**Nod: diogelu a chadw'r gweithlu creadigol presennol a gweithlu creadigol y dyfodol.**

#### Camau Gweithredu Allweddol

— Cefnogi mentrau ar gyfer gwella lles/iechyd meddwl ym mhob sector â blaenoriaeth

— Gwella'r broses o gyfeirio unigolion at adnoddau presennol er mwyn cael cymorth o ran lles ac iechyd meddwl

— Lwfansau/bwrsariaethau i weithwyr llawrydd mewn sectorau â blaenoriaeth gael mynediad at hyfforddiant uwchsgilio lle nad yw ar gael eisoes mewn mannau eraill.

# Atodiad 1

## Tystiolaeth

- Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2022
- Clwstwr – Gwaith Sgrin 2020; Sgiliau'r dyfodol ac arloesi ar gyfer y Sector Sgrin ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Prifysgol De Cymru a Cymru Greadigol – Arolwg Sgrin Cymru 2021
- Adolygiad Sgiliau BFI 2022
- Film & TV Charity – The Whole Picture Toolkit
- Clwstwr – Arolwg Gemau Cymru 2021
- Adolygiad Blynyddol UKIE 2021
- TIGA Powering Up: A Video Games Investment Fund (Chwefror 2021)
- Cynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth RSP 2019 – 2022
- Llywodraeth Cymru – Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Bectu – Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Theatr
- Celfyddydau Anabledd Cymru – Dewch â'n Hawliau Creadigol: Maniffesto Diwylliannol a Rhyngwladol Pobl Anabl
- Llywodraeth Cymru – Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach; Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau
- Bectu/CULT Cymru – Full STEAM Ahead (Cronfa Ddysgu Undebol Cymru)

ISBN Digidol: 978-1-83577-705-3
WG48859
© Hawlfraint y Goron 2024